# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn via WebEx, Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2020 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Peter Arnold Evans, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch (Cadeirydd), Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Swyddog Cynllunio (PG), Cyfreithiwr (AS), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mabon ap Gwynfor a/ac Peter Scott

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Tina Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag Eitem 7 ar y Rhaglen (Canolfan y Dderwen, y Rhyl).

Datganodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill gysylltiad personol ag Eitem 7 ar y Rhaglen (Canolfan y Dderwen, y Rhyl).

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag Eitem 8 ar y Rhaglen (Bwthyn Brynllithrig Bach, Rhuallt).

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020.

**Cywirdeb** – cynhaliwyd y cyfarfod trwy WebEx**,** ac ni chafodd ei gynnal yn Siambr y Cyngor.

Eglurodd y Cynghorydd Emrys Wynne nad oedd yn gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau technegol ond fe'i rhestrwyd fel bod yn bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020 fel cofnod cywir.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 8) -**

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd yn gofyn am benderfyniad y Pwyllgor ynghyd â’r dogfennau cysylltiedig. Cyfeiriwyd hefyd at y wybodaeth atodol a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r Rhaglen ac a oedd yn ymwneud â cheisiadau penodol. Cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen yn unol â’r wybodaeth atodol a gyflwynwyd yn hwyr.

**5 CAIS RHIF 25/2020/0257/PS – TIR I’R DWYRAIN O LYN BRENIG, NANTGLYN**

Cais wedi ei dynnu yn ôl.

**6 CAIS RHIF 47/2020/0216/PF – BWTHYN BRYNLLITHRIG BACH, RHUALLT, LLANELWY LL17 0LW**

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad sy’n rhagfarnu, ni chymerodd ran yn y drfodaeth ac ni chafodd bleidlais.

Cyflwynwyd cais ar gyfer lleoli pod glampio ar gyfer defnydd fel llety gwyliau ym Mwthyn Brynllithrig Bach, Rhuallt, Llanelwy LL17 0TP.

Ar y pwynt hwn, eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad oedd technoleg ar gael ar hyn o bryd ar gyfer siaradwr cyhoeddus ond roedd datganiad ysgrifenedig wedi’i ddarparu o blaid y cais gan Mr a Mrs Edwards. Roedd gwaith yn cael ei wneud i allu cael mynediad at dechnoleg ar gyfer siaradwyr cyhoeddus yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Datganiad ysgrifenedig a ddarparwyd gan Mr a Mrs Edwards (o blaid):

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y pwyllgor hwn. Mae’r cais hwn ar gyfer disodli’r tŷ haf presennol sydd o fewn cwrtil yr eiddo, gyda phod glampio i gael ei ddefnyddio gan deulu a ffrindiau yn ogystal â fel llety gwyliau. Mae’r cais wedi’i gefnogi’n llawn gan Gymdeithas Clawdd Offa, Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ogystal â nifer o gymdogion ac aelodau’r gymuned gan gynnwys y tirfeddiannwr i gefn ac ochr ddeheuol yr eiddo.

Yn ogystal â bod yn lle i ffrindiau a theulu aros, bydd y pod glampio arfaethedig yn ffynhonnell incwm i gefnogi Mrs Edwards i leihau ei horiau gwaith er mwyn bod yn brif ofalwr i'w mab, sydd â chyflwr genetig oes difrifol a phrin. Mae Mr a Mrs Edwards yn gweithio i’r GIG lleol ac maent wedi gwneud hynny ers mwy na 15 mlynedd. Byddai defnyddio’r pod glampio arfaethedig fel llety gwyliau yn helpu i sybsideiddio eu hincwm er mwyn gofalu am eu mab yn hytrach na hawlio budd-daliadau.

Mae gan y pod arfaethedig ôl troed petryal a chaiff ei gladio ar y tu allan gyda chedrwydd coch, sy’n cyd-fynd â’r llethr o amgylch a’r coetir trwchus ac mae ganddo nodweddion treulio tebyg. Mae gorffeniad y to cromennog yn ddalen o dun gwastad; mae'n llwyd er mwyn cyd-fynd â’r lliwiau o’i gwmpas. Bydd y datblygiad yn

sensitif ac anymwthiol ac mae 45 metr oddi wrth y ffin rhwng eiddo Mr a Mrs Edwards a'r cymydog agosaf, Tyddyn y Drew.

Mae un ardal barcio fawr ar gyfer y pod glampio un ystafell wely, ac mae modd mynd iddi ychydig i fyny'r ffordd ar hyd Cwm Road. Nid yw adran briffyrdd Sir Ddinbych wedi mynegi unrhyw wrthwynebiadau i'r mynediad.

Mae hwn yn ddatblygiad ar raddfa fach a'r bwriad yw cefnogi'r economi leol a hyrwyddo atyniadau i dwristiaid a busnesau lleol er enghraifft bwytai, tafarndai a siopau. Mae Mr a Mrs Edwards yn bwriadu cefnogi busnesau lleol eraill, er enghraifft trwy ddefnyddio glanhawr lleol a sicrhau aelodaeth mewn spa leol ar gyfer defnyddwyr y podiau.

I gloi, mae'r cais ar gyfer llety gwyliau tawel ar raddfa fach, drws nesaf i gartref ein teulu.
Diolch

Cadarnhaodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Christine Marston, nad oedd y Cyngor Cymuned wedi mynegi unrhyw wrthwynebiadau i'r cais.

**CYNIGODD** y Cynghorydd Christine Marston argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i **HEILIWYD** gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Cafwyd pleidlais: 16 o blaid, 0 yn erbyn, 1 ymatal

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol ar gyfer lleoli pod glampio ar gyfer defnydd fel llety gwyliau.*

**7 CAIS RHIF 02/2020/0251/PC – YR HEN WYNNSTAY STORES, FFORDD Y PARC, RHUTHUN LL15 1NO**

Cyflwynwyd cais ar gyfer newid defnydd adeiladau a thir o A1 Manwerthu i Iard Adeiladwyr / B8 Warws / Defnydd Storio (cais ôl-weithredol) yn yr Hen Wynnstay Stores, Ffordd y Parc, Rhuthun LL15 1NQ.

Cadarnhaodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Emrys Wynne, nad oedd Cyngor Tref Rhuthun wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Roedd gwaith wedi'i wneud ar y safle, a oedd yn rhedeg fel Iard Adeiladwyr bellach.

Cadarnhawyd na fyddai mwy na 2 sgip yn cael eu gosod ar y safle ar unrhyw adeg ac y byddai'r ddau yn cael eu gosod ar ochr ddwyreiniol y safle.

Amod 7 a gynigiwyd yn adroddiad y Swyddog oedd na ddylai unrhyw beiriannau wneud sŵn cyn 8.00 a.m. Cadarnhawyd na fyddai unrhyw beiriannau ar y safle a gwnaed cais i'r amod perthnasol gael ei ddileu. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r amod yn cael ei ddileu.

**CYNIGIODD** y Cynghorydd Emrys Wynne argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais fel a nodir yn yr adroddiad ac yn amodol ar ddileu Amod 7, ac fe'i EILIWYD gan y Cynghorydd Mark Young**.**

Cafwyd pleidlais: 17 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymatal

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol ac yn amodol ar ddileu Amod 7 oherwydd na fydd unrhyw offer sy'n cynhyrchu sŵn yn cael eu defnyddio ar hen safle Wynnstay Stores**.***

**8 CAIS RHIF 45/2020/0131/PF – CANOLFAN Y DDERWEN, YSGOL CHRISTCHURCH, FFORDD LAS, Y RHYL**

Datgelodd y Cynghorydd Tina Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu.

Datganodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill gysylltiad personol.

Cyflwynwyd cais ar gyfer codi estyniad unllawr i adeilad presennol Canolfan y Dderwen i ddarparu cyfleusterau meithrinfa ychwanegol yng Nghanolfan y Dderwen, Ysgol Christchurch, Ffordd Las, y Rhyl.

Yn y fan hon, gadawodd y Cynghorydd Tina Jones y cyfarfod.

Holwyd pam roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio. Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y Cynghorydd Tony Thomas, ar 24 Mehefin, wedi gofyn i'r cais cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd bod ganddo bryderon am ddwysâd y safle.

Eglurodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Pete Prendergast, fod y feithrinfa yn boblogaidd iawn a bod angen ei hymestyn ar frys. Roedd Canolfan y Dderwen yn cynnal nifer o weithgareddau yn ystod y dydd a gyda'r nos. Roedd un gwrthwynebiad i'r cais wedi dod i law ond nid oedd yn cynnwys rhesymau cynllunio o ran y cais. Roedd y cyfleuster wedi'i redeg a'i drefnu yn hynod o dda ac roedd aelodau lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf i gyd. Roedd y gefnogaeth roedd y cyfleuster yn ei rhoi i deuluoedd yn enfawr.

Gofynnodd y Cynghorydd Tony Thomas am adroddiad annibynnol yn dangos bod angen yr estyniad. Gan fod y cais yn gais Cyngor Sir Ddinbych, roedd yn teimlo y dylai gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer craffu cyhoeddus, a gofynnodd i bob cais Cyngor Sir Ddinbych yn y dyfodol cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

Gwnaeth y Cynghorydd Mark Young bwynt o drefn o ran y cais hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad oedd mater angen yn ofyniad polisi ac nad oedd yn rheswm dilys dros wrthod y cais hwn. Cynghorodd Aelodau i ddiystyru hyn a chyfyngu'r drafodaeth i faterion cynllunio perthnasol. Eglurodd y Rheolwr Datblygu nad oedd cyfeiriad yn y Cynllun Dirprwyo presennol bod rhaid i bob cais y Cyngor gael eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio. Gellid gosod unrhyw

bryderon o ran gweithredu a rheoli'r cyfleuster fel amod. Gallai union eiriad yr amod gael ei gytuno â'r aelodau lleol.

**CYNIGIODD** y Cynghorydd Ellie Chard argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais fel a nodir yn yr adroddiad ac yn amodol ar amod arall, sy'n ei gwneud yn ofynnol sicrhau cynllun gweithredu/rheoli.

Cafwyd pleidlais: 15 o blaid, 0 yn erbyn, 1 ymatal

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol, yn amodol ar ychwanegu amod arall o ran cynllun gweithredu a rheoli'r ganolfan yn dilyn trafodaeth gyda'r aelod lleol.*

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 10:35 A.M.**